## Canllawiau technoleg

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn eich cyfeirio at wybodaeth ddefnyddiol ac adnoddau technoleg yn ystod argyfwng COVID-19. Byddwn yn diweddaru'r cyfarwyddyd yn rheolaidd wrth i fwy o adnoddau a chyngor ddod i'r amlwg.

Mae llawer o'r dolenni yn y ddogfen hon i wefannau allanol. Rydym yn rhannu'r rhain yn y gobaith y byddant o ddefnydd ond nid oes gennym unrhyw reolaeth dros eu cynnwys nac eu cywirdeb.

Yn ystod yr argyfwng presennol, mae nifer o werthwyr technoleg yn darparu eu gwasanaethau am ddim neu'n rhatach nag arfer. Am fanylion, ewch i https://charitydigital.org.uk/topics/coronavirus-tech-offers-available-to-charities.

Mae technolegau digidol yn allweddol i gadw'ch sefydliad i fynd. Dyma ambell ystyriaeth ddigidol allweddol i'ch helpu i addasu i'r sefyllfa Covid-19. Rydym yn edrych ar y meysydd hyn:

**Cadw mewn cysylltiad** – ar gyfer darpariaeth gwasanaethau ynghyd â chynllunio a gwaith tîm
**Dargyfeirio** – newid yr hyn rydych chi'n ei wneud neu sut rydych chi'n ei wneud
**Cymryd taliadau** – cynnal incwm ar gyfer yr hyn rydych chi'n ei wneud.

### CADW MEWN CYSYLLTIAD

Mae'n bwysig dod o hyd i ffyrdd o gadw mewn cysylltiad â'ch staff (a allai fod yn gweithio gartref), cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill. Gan fod cyfathrebu wyneb yn wyneb yn amhosibl ar hyn o bryd, does dim amheuaeth mai technoleg ddigidol yw'r opsiwn gorau (neu'r unig opsiwn).

#### Gwefan

Os oes gennych chi wefan cwmni, gofalwch ei bod yn cael ei diweddaru er mwyn i gwsmeriaid wybod eich bod ar agor am fusnes a sut y gallant gael mynediad at eich cynhyrchion a gwasanaethau. Efallai y byddwch hefyd am ddarparu gwybodaeth am sut y gallant gysylltu â chi.

#### E-bost

Os oes gennych chi gronfa ddata e-bost cleientiaid, cofiwch ei defnyddio i roi diweddariad i'ch cwsmeriaid ar eich busnes cymdeithasol. Cofiwch fod pobl yn cael llawer o negeseuon e-bost gan gwmnïau ar hyn o bryd, felly cadwch y wybodaeth yn gryno a syth i'r pwynt. Gofalwch eich bod yn parhau i gydymffurfio â rheoliadau diogelu data GDPR. Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ganllawiau defnyddiol i sefydliadau sy'n ymdrin â data yn ystod yr argyfwng Covid-19. https://ico.org.uk

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

**Cyfryngau cymdeithasol**
Efallai mai'r ffordd hawsaf o gysylltu â'ch cleientiaid yw drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol. Os nad ydych chi wedi gwneud eisoes, beth am greu cyfrif Facebook neu Twitter ar gyfer eich busnes a'i ddefnyddio i hysbysu pobl o'r hyn sy'n digwydd. Gallwch hefyd gyrraedd cwsmeriaid newydd drwy'r llwyfannau hyn. Mae gan Learn My Way diwtorial ar-lein am ddim ar ddefnyddio Facebook https://www.learnmyway.com/courses/using-facebook/

Mae Straeon Instagram yn ffordd effeithiol o hyrwyddo unrhyw alwadau i weithredu.

Defnyddiwch Facebook Messenger i gyfathrebu â chwsmeriaid yn breifat a chymryd archebion ganddynt.

**Fideogynadledda**
Gyda'ch holl staff ac aelodau bwrdd yn gweithio o bell, mae fideo-gynadledda yn ffordd effeithiol o gynnal cyfarfodydd, naill ai un i un neu ar gyfer grŵp. Os nad ydych chi eisoes wedi gwneud, rhowch gynnig ar:

- **Skype** – Fideogynadledda Microsoft
- **Whatsapp** – sgyrsiau wedi'u hamgryptio a fideo-gynadledda ar gyfer hyd at 4 peron
- **Zoom** – fideogynadledda ar y we am ddim gyda swyddogaethau ychwanegol y gellir talu amdanynt. Mae gan Zoo diwtorials fideo da https://support.zoom.us/hc/en-us/articles/206618765 -Zoom-Video-Tutorials
- **Teams** – hefyd gan Microsoft, defnyddiol ar gyfer cynadledda os ydych chi'n defnyddio'r cynnyrch Teams
- **Hangouts** – Opsiwn Fideogynadledda Google

Mae canllawiau gan Good Things Foundation yma os ydych chi angen helpu rhai aelodau gyda fideo-gynadledda https://www.learnmyway.com/subjects/more-internet-skills/#resources

**Adnoddau cydweithio**
Mae Microsoft Teams, Slack, Trello, Basecamp, G Suite (neu Google Suite) a Whatsapp yn rhai o'r opsiynau ar gyfer cydweithio yn y gweithle. Maent yn galluogi timau i gyfathrebu ac yn cynnig negeseua uniongyrchol a ffyrdd o rannu gwybodaeth a dogfennau gyda phob rhan o'r sefydliad. Maent i gyd ar gael i'w defnyddio ar gyfrifiadur neu ar ddyfais symudol. Gallai'r canllawiau hyn fod yn ddefnyddiol:

- Efallai bod Microsoft Teams ar gael eisoes i chi drwy'ch trwydded os ydych chi'n defnyddio cymwysiadau Micfrosoft Suite. Fideo Cyflwyniad Microsoft Teams https://support.office.com/en-gb/article/video-welcome-to-microsoft-teams-b98d533f-118e-4bae-bf44-3df2470c2b12

Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

- Mae Slack ar gael am ddim, neu i gael mwy o swyddogaethau gallwch uwchraddio a thalu i danysgrifio. Slack Introduction Video
- Mae Trello yn gweithio fel bwrdd 'pethau i'w gwneud' a rennir fel bod tasgau'n gallu cael eu clustnodi i bobl ac er mwyn i bawb gael gwybod bod rhywbeth wedi'i gwblhau http://trello.com
- Mae Basecamp yn adnodd rheoli prosiect adnabyddus arall sy'n cynnwys bwrdd negeseuon, rhestr o bethau i'w gwneud a nodweddion sgwrs grŵp. Mae ar gael am ddim https://basecamp.com/
- Mae G Suite yn gyfres o adnoddau, meddalwedd a chynhyrchion cyfrifiadura cwmwl, cynhyrchiant a chydweithredu y gallwch gael mynediad atynt ar-lein o ble bynnag rydych chi. Gallech fod yn gymwys am G Suite for Non-profits. https://gsuite.google.co.uk/intl/en_uk/features/
- Mae Whatsapp yn ap am ddim ar gyfer dyfeisiau symudol ac mae'n wych ar gyfer anfon negeseuon testun. Gallwch greu grŵp Whatsapp ar gyfer eich Bwrdd neu'ch tîm staff a chyfathrebu yn gyflym gyda'r holl grŵp ar yr un pryd. Lawrlwythwch o siop ap eich ffôn symudol.

**DARGYFEIRIO**
Yn ystod yr argyfwng Covid-19 efallai y bydd angen i chi ailystyried eich cynnig gwasanaeth neu gynnyrch.
- Allech chi gynnig gwasanaeth digidol sy'n diwallu anghenion presennol yn eich cymuned ac sy'n denu cwsmeriaid newydd?
- Oes angen i chi wneud eich gwasanaeth neu gynnyrch ar gael ar-lein yn hytrach nag yn bersonol?

**Newid eich cynnyrch neu wasanaeth a chyrraedd cwsmeriaid newydd**
Os oeddech chi'n cynnig gwasanaethau wyneb yn wyneb yn flaenorol, gall technoleg eich galluogi i'w cynnig ar-lein.

Gellir defnyddio llwyfannau fideo-gynadledda fel Skype, Teams, Zoom a Lifesize i ddarparu ystod o weithgareddau yn amrywio o hyfforddi, cwnsela iechyd meddwl, gwersi dawnsio, sesiynau coginio, perfformiadau celfyddydau ar raddfa fach a llawer mwy. Meddyliwch yn greadigol am beth sydd ei angen ar bobl yn eich cymuned ar hyn o bryd a sut y gallwch gyflawni hyn ar-lein.

Gallech hefyd ddechrau denu cwsmeriaid newydd drwy gynnig y canlynol:
- Taliadau ymlaen llaw – cynigiwch dalebau am wasanaeth y gellir ei hawlio yn y dyfodol
- Talu dros rywun arall – gwnewch hi'n bosibl i bobl brynu nwyddau neu wasanaethau i rywun sydd mewn angen.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

- Beth am greu adnodd ar-lein – datblygwch rywbeth defnyddiol ar gyfer rhieni gyda phlant gartref
- Gwirfoddolwch amser - os na ellir defnyddio'ch gwasanaethau, all eich cyfarpar neu staff helpu mewn ffordd arall?

**Gwerthu'ch cynhyrchion/gwasanaethau ar-lein**
Os ydych chi wastad wedi gwerthu eich cynhyrchion mewn siop ffisegol, beth am ddechrau gwerthu ar-lein? Gallech ddechrau gwerthu drwy wefannau sefydledig fel e-bay neu Amazon.

- Am ganllawiau ar sut i ddechrau gwerthu ar e-bay, ewch i https://www.ebay.co.uk/help/selling/selling/start-selling-ebay?id=4081

- Am ganllawiau ar sut i ddechrau gwerthu ar Amazon, ewch i https://services.amazon.co.uk/services/sell-online/international-selling.html

Fel arall, beth am agor eich siop ar-lein eich hun? Mae sawl llwyfan e-fasnach sy'n eich galluogi i wneud hyn, fel Wix neu Shopify. Mae gan y wefan hon ganllawiau ar y broses o agor eich siop ar-lein eich hun https://www.websitebuilderexpert.com/building-online-stores/

Bydd angen i chi feddwl am ddosbarthu os ydych chi am werthu ar-lein a dod o hyd i wasanaeth dosbarthu addas (er enghraifft y Post Brenhinol, Hermes neu DHL). Efallai y byddwch chi'n gallu dosbarthu'r cynnyrch i gwsmeriaid eich hun.

Mae gwerthu bwyd ar-lein, ar ffurf cynhwysion neu brydau parod (tecawê) yn opsiwn ar gyfer busnesau cymdeithasol sy'n rhedeg caffis. Caniateir hyn ar hyn o bryd ond edrychwch ar ganllawiau diweddaraf y llywodraeth. Mae hefyd angen i chi gydymffurfio â Rheoliadau Bwyd https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-guidance-for-food-businesses

Mae NCASS wedi llunio canllawiau ar wahanol lwyfannau dosbarthu bwyd, fel Deliveroo a Just Eat https://www.ncass.org.uk/coronavirus/online-ordering---what-you-need-to-know

*Bydd angen i chi ddilyn rhai camau hylendid ychwanegol fel diheintio rhwng eitemau a ddosbarthir.*

**CYMRYD TALIADAU**
Oes angen i chi newid dulliau talu er mwyn galluogi pobl i'ch talu o bell ar-lein?

Mae'n siŵr bod cael arian i mewn i'ch cyfrif yn flaenoriaeth nawr. Mae cymryd taliadau ar-lein yn osgoi'r risg o halogiad o arian parod a gallai'ch galluogi i addas dosbarthu ar gyfer sianeli ar-lein. Gallech edrych ar gymryd taliadau ar eich gwefan, dros y ffôn neu wrth ddosbarthu.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

**Taliadau ar-lein ac anfonebu**
I wneud taliadau ar-lein bydd angen i chi agor cyfrif neu borth masnachwr. Mae pyrth taliadau cyffredin yn cynnwys PayPal a Stripe. Cymharwch daliadau a gwasanaethau gwahanol ddarparwyr (tua 2-3% a ffi benodol o tua 20c y gwerthiant). Dyma ganllawiau defnyddiol i gymharu cyflenwyr https://startups.co.uk/best-payment-gateways/

Os ydych chi'n rhedeg gwefan Wordpress gallwch ychwanegu ategyn e-fasnach fel Woocommerce am ddim. Gall hyn integreiddio'r llwyfan masnachwr o'ch dewis. Efallai y bydd gwefannau adeiladu gwefannau eraill yn cynnig y swyddogaeth hon yn awtomatig.

Gallwch hefyd anfonebu fel bod cleientiaid yn talu'n syth i'ch cyfrif. Mae gwasanaethau fel Quicknooks, SageOne a Xero yn cynnig anfonebu ar-lein ac maen nhw hefyd yn olrhain gwariant. Mae'r pecynnau cyfrifyddiaeth hyn yn cael eu cymharu yma. Mae pecynnau yn dechrau am tua £10 y mis am becyn sylfaenol. Mae ychwanegion yn cynnwys cyflogres.
https://www.cloudpro.co.uk/finance/5331/sage-one-vs-quickbooks-online-vs-xero

**Taliadau symudol**
Mae taliadau cerdyn yn ddelfrydol os ydych chi allan yn dosbarthu gwasanaethau neu stoc neu'n cynnig cynnyrch tecawê o'ch safle. Gellir gweld cymariaethau o wahanol wasanaethau fel iZettle, Stripe a Paypal yma https://merchantmachine.co.uk/credit-card-machine/

**Cyllido Torfol**
Os ydych chi angen codi arian ar frys, gallai cyllido torfol gynnig ateb i chi gan fod gweithredu cymunedol yn ddull effeithiol ar hyn o bryd. Mae'r llwyfannau yn cynnwys Indiegogo, Kickstarter a Crowdfunder - mae'r platfform hwn yn arbenigo mewn prosiectau menter gymdeithasol. Edrychwch i weld pa blatfform sydd orau ar gyfer eich busnes gan fod y ffioedd a'r symiau a godir yn amrywio.

Mae Nesta wedi llunio rhestr o'r ffyrdd gorau o godi arian ar gyfer prosiectau cymdeithasol https://www.nesta.org.uk/blog/9-crowdfunding-platforms-for-charities-community-groups-and-social-entrepreneurs/

Ar hyn o bryd mae Crowdfunder yn cynnig gwasanaeth 0% i helpu busnesau yn ystod y pandemig. Gallwch godi arian trwy gyllido torfol a chynnig gwobrau fel 'payitforward'.
https://www.crowdfunder.co.uk/pay-it-forward

Bydd angen i chi gynllunio eich ymgyrch cyllido torfol gan gynnwys cyllidebu, dweud stori ysbrydoledig a llunio fideo yn ddelfrydol. Mae canllawiau da ar sut i gynllunio yma https://about.spacehive.com/the-ultimate-guide-to-crowdfunding/

Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

**Pay It Forward**
Y syniad gwreiddiol gyda 'Payitforward' oedd cynnig opsiwn i gwsmeriaid helpu eraill yn y gymuned drwy dalu dros y person nesaf ynghyd â nhw eu hunain. Gelwir hyn hefyd yn 'suspended coffee' mewn caffi. Rhowch gynnig arni i sbarduno gwerthiant am wasanaeth rydych chi'n ei ddarparu nes ymlaen i gael yr arian i mewn nawr. https://suspendedcoffees.com/cafes/

Mae'r llwyfannau hyn yn cynnig yr opsiwn i dalu ymlaen llaw a chefnogi'r diwydiant creadigol, heb gynnig gwasanaeth corfforol.
https://www.patreon.com/
https://www.buymeacoffee.com/

Gelwir datrysiadau seiliedig ar dechnoleg sy'n mynd i'r afael ag angen cymdeithasol yn #TechForGood. Chwiliwch am ragor o wybodaeth gennym ni a ffrydiau cyllid posibl ar gyfer y mathau hyn o brosiectau.

Mae pethau'n digwydd yn gyflym ac rydym ni'n gweithio fel tîm i ddatblygu adnoddau, cyngor ac adnoddau penodol a fydd yn dod yn fwy hygyrch dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf felly cadwch lygad am ein diweddariadau trwy e-bost ac ar ein gwefannau https://wales.coop/covid-19/ a https://businesswales.cgov.wales/socialbusinesswales yn rheolaidd hefyd.

Os ydych chi am siarad gydag un o'n Cynghorwyr Busnes ffoniwch ni ar 0300 111 5050 neu e-bostiwch sbwenquiries@wales.coop **a gallwn drefnu i'ch ffonio yn ôl.**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund